# Disgrifiad o system reoli'r DU ynghylch mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a gwerthuso ei pherfformiad wrth amddiffyn iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid (Ebrill 2016 – Mawrth 2017)

Medi 2018

Department for Environment Food & Rural Affairs

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

The Scottish Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Disgrifiad o system reoli'r DU ynghylch mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a gwerthuso ei pherfformiad wrth amddiffyn iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid (Ebrill 2016 – Mawrth 2017)

## Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002)

**Medi 2018**

© Hawlfraint y Goron 2018

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl ar unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom: ITAP@defra.gsi.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0643-1

CCS0718989650 09/18

PB 14515

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol ........ 1

Cwmpas yr adroddiad ........ 1

Cyflawniadau/diweddariadau ........ 2

- Mewnforion cŵn a chathod ........ 2
- Goruchwylio Tafod Glas ar ôl mewnforio ........ 2
- Asesu risg – deall y risgiau ........ 2
- Bioddiogelwch (Lloegr) ........ 2
- Defra a'r Llu Ffiniau ........ 2
- Newidiadau o ran trefn a strwythur awdurdodau cymwys a chyrff gorfodi eraill Efffeithiolrwydd cyffredinol reoli mewnforio ........ 3
- Trafodion masnachol ........ 3
- Mewnforion personol ........ 3

Adran 1 – Asesu risg/goruchwylio clefydau byd-eang ........ 4

Adran 2 – Amddiffyn ac ymateb: rheoli ar ffiniau'r DU ........ 5

Adran 3 – Sicrwydd: rheoli ôl-ffiniau'r DU ........ 10

Adran 4 – Gweithio gyda'n gilydd: Cydlynu a chydweithredu ........ 13

Adran 5 – Edrych ymlaen 2017-18 ........ 15

Atodiad A: Ystadegau ynghylch mewnforion cynhyrchion anghyfreithlon ........ 17

Atodiad B: Rhestr byrfoddau ac acronymau cyffredinol ........ 22

# Crynodeb gweithredol

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein trydydd adroddiad blynyddol ar ddeg yn unol ag Adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002) sy'n disgrifio'r camau a gymerir gan y llywodraeth ac eraill i atal clefydau anifeiliaid rhag dod i mewn i'r DU. Mae'r dirwedd reoleiddio ar gyfer rheoli mewnforion yn gymhleth ac mae angen ei haddasu o hyd i adlewyrchu risgiau newidiol clefydau byd-eang a phatrymau masnach ryngwladol sy'n ehangu o hyd.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r canlyniadau penodol a'r datblygiadau polisi a gweithredol rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017. Ym mis Mai 2016, newidiodd Adran Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig Gogledd Iwerddon (DARDNI) yn Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iweddon (DAERA), ond mae'r strwythurau mewnforio'n parhau'r un fath, fel y mae strwythurau asiantaethau allweddol eraill hefyd ar draws llywodraeth ganolog a lleol sy'n rhan o'r gwaith hwn, ac mae'r sail gyfreithiol ar gyfer rheoli heb newid, felly er mwyn lleihau hyd yr adroddiad hwn, nid ydynt wedi'u rhestru ar wahân, ond gellir eu gweld yn yr adroddiad ar gyfer 2012-2014 yn https://www.gov.uk/government/publications/review-of-controls-on-imports-of-animals-and-animal-products-april-2012-to-march-2014

## Cwmpas yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y flwyddyn o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017. Paratowyd yr adroddiad hwn gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), gyda chyfraniadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ac Adrannau Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y llywodraethau datganoledig, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a'r Llu Ffiniau.

Yn yr adroddiad rhoddir manylion:

- Asesu Risg/Goruchwylio clefydau byd-eang (Adran 1)
- Amddiffyn ac Ymateb: Rheoli ar Ffiniau'r DU 5 (Adran 2)
- Sicrwydd: Rheoli ar Ffiniau'r DU (Adran 3 )
- Gweithio gyda'n Gilydd: Cydweithredu rhwng asiantaethau (Adran 4)

Er y cymerwyd gofal i sicrhau bod y dolenni at wefannau yn yr adroddiad hwn yn gywir adeg cyhoeddi, gallai pethau newid.

Am ragor o wybodaeth am adroddiadau adolygu blynyddol mewnforion, cysylltwch â'r canlynol:

Imports and EU Trade Team,
Animal and Plant Health,

Department of Environment Food and Rural Affairs
17 Smith Square, London, SW1P 3JR
E-bost: Imports&TradeinAnimalsandProducts@defra.gsi.gov.uk

# Cyflawniadau/diweddariadau

## Mewnforion cŵn a chathod

Dechreuodd APHA weithdrefn newydd lle rhoddwyd gwybod am ddiffyg cydymffurfiad mewn masnach rhwng aelod-wladwriaethau yn uniongyrchol i gysylltiadau unigol, yn yr aelod-wladwriaeth, drwy e-bost. O ganlyniad i symleiddio'r broses hon, roedd hi'n bosib datrys problemau'n gynt na thrwy lwybr blaenorol llythyrau'r Prif Swyddog Milfeddygol (CVO). O ganlyniad i hyn, cafwyd ymateb hynod o dda gan gydweithwyr yng Ngwlad Pwyl sydd wedi bod o gymorth mawr wrth ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio ac sydd wedi darparu arweiniad defnyddiol ar adnabod pasbortau anifeiliaid anwes ffug.

## Goruchwylio Tafod Glas ar ôl mewnforio

Cynhelr profion Tafod Glas ar ôl mewnforio ar rywogaethau sy'n dueddol o ddal y clefyd ac sydd wedi dod o ardaloedd risg uchel megis Ffrainc, yr Eidal a Sbaen. Yn ogystal, mae APHA hefyd yn profi rhywogaethau sy'n dueddol o ddal y clefyd ac a gludwyd drwy ardaloedd lle mae cyfyngiadau Tafod Glas, ond sydd heb gael ardystiad eu bod wedi cael yr amddiffyniad gofynnol rhag heintio posib gan bryfed. Yn ystod 2016-17, cynhaliwyd 207 o brofion Tafod Glas ar ôl mewnforio.

## Asesu risg – deall y risgiau

Mae Defra'n parhau i fonitro sefyllfa ryngwladol clefydau ac yn llunio Aesiadau Cychwynnol Achosion o Dorri Allan ar amrywaiaeth o glefydau sy'n torri allan yn y byd. Rhoddodd Defra wybod am y clefydau newydd a oedd yn torri allan i'r mannau archwilio ar y ffin (BIP) a'r Llu Ffiniau i sicrhau bod rheolau rheoleiddiol a gwrth-smyglo ar y ffin yn ymateb i risgiau newydd neu newidiol i iechyd anifeiliaid .

## Bioddiogelwch (Lloegr)

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Bioddiogelwch Misol Gweinidogol yn ystod y cyfnod adrodd i sicrhau bod modd uwchgyfeirio risgiau bioddiogelwch yn amserol a darparu goruchwyliaeth a chyfarwyddyd strategol. O ganlyniad, roedd modd asesu risgiau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion gyda'i gilydd, o ran tebygolrwydd ac effeithiau.

## Defra a'r Llu Ffiniau

Mae Defra a'r Llu Ffiniau wedi parhau i gydweithredu i sicrhau y gorfodir yn effeithiol y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r gwaith o fewnforio planhigion ac anifeiliaid, a hefyd cynhyrchion sy'n dod o blanhigion neu anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mewnforion masnachol neu bersonol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO).
- Mewnforion masnachol a phersonol anifeiliaid byw (gan gynnwys rhai dyfrol) a Chynllun Teithio Anifeiliaid Anwes yr UE.
- Iechyd planhigion - mewnforion masnachol a phersonol planhigion a chynhyrchion planhigion, gan gynnwys pren, cynhyrchion pren a rhisgl.
- Amddiffyn bioamrywiaeth a rhywogaethau mewn perygl drwy reoli masnachu rhywogaethau mewn perygl (CITES) a rheoliadau Gorfodi, Llywodraethu a Masnach (FLEGT) yr UE.
- Meddyginiaethau Milfeddygol - mewnforion masnachol a phersonol meddyginiaethol anghyfreithlon.
- Mae POAO, CITES ac Iechyd Planhigion wedi eu cynnwys yn Strategaeth Reoli bresennol y Llu Ffiniau.

## Newidiadau o ran trefn a strwythur awdurdodau cymwys a chyrff gorfodi eraill

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ym mis Mai 2016, newidiodd DARD (Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) i fod yn Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), sy'n rheoli mewnforion i Ogledd Iwerddon.

# Efffeithiolrwydd cyffredinol rheoli mewnforio

## Trafodion masnachol

Mae rhyddid i symud rhwng aelod-wladwriaethau'r UE, ond caiff cyfran ar hap o lwythi eu harchwilio ar sail asesiad risg o glefydau. Cynhaliwyd profion ffisegol ar y rhan fwyaf o lwythi o anifeiliaid byw a chanran o gynhychion a ragnodwyd o drydydd gwledydd. Mae swm y gorfodi ffurfiol angenrheidiol mewn BIP wedi parhau ar lefel gyson isel ynghylch anifeiliaid byw a chynhyrchion yn dod o anifeiliaid. Mae camau gorfodi anffurfiol i wella safonau ardystio wedi arwain at welliannau yn y rhan fwyaf o feysydd.

Ar gyfer mewnforion anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid trydydd gwledydd, parhaodd lefel y cydymffurfio'n uchel iawn. Ar gyfer 2016/17, 1% yn unig o'r holl lwythi o gynhyrchion anifeiliaid a wrthodwyd, o'i gymharu â 1.3% yn 2015/2016. Ar gyfer llwythi anifeiliaid byw, gwrthodwyd 0.6% yn 2016/17 o'i gymharu â 0.4% yn 2015/16.

Os oedd cynnyrch anifail yn achosi risg i iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid, difa'r llwyth oedd y cam gorfodi mwyaf cyffredin o hyd. Ar gyfer anifeiliaid byw, cafodd y rhan fwyaf o lwythi eu rhoi mewn cwarantîn tan i'r risg clefyd fod yn isel iawn.

## Mewnforion personol

Mae Defra a'r Llu Ffiniau wedi parhau i weithio'n agos i sicrhau ymyriadau effeithiol sy'n seiliedig ar risgiau.

Mae mewnforion anghyfreithlon a ddarganfuwyd gan y Llu Ffiniau yn parhau i fod am symiau bach ac fel arfer yn rhoddion gan deithwyr sy'n ymweld â'u teuluoedd neu'r hyn a atafaelwyd o dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr sy'n teithio i'r DU am y tro cyntaf. Nid oedd y rhan fwyaf yn cynnwys nwyddau a smyglwyd yn fwriadol, ond a ddaeth o deithwyr nad oeddent, er gwaethaf yr ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn ymwybodol o waharddiadau'r UE a oedd mewn grym ar y pryd.

Rhanna'r Llu Ffiniau a Defra gyfrifoldeb am hysbysu'r cyhoedd yn glir o reolau mewnforio cyfredol yr UE a pham bo angen y rheolaethau. Yn fras, mae'r Llu Ffiniau'n gyfrifol am yr hyn sy'n dod i mewn ar y ffin, a Defra am gynhyrchion a fewnforiwyd sy'n fewndirol. Archwilir hefyd cyfleoedd i gydweithredu i wella'r cyfrathrebu yn barhaus e.e. wrth roi teithebau a thrwy'r diwydiant teithio.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae DAERA yn cadw'r cyfrifoldeb am arolygu mewnforion personol. Mewn mannau mynediad, cydweithir yn agos iawn â'r Llu Ffiniau ar sail weithredol er mwyn tynnu sylw at eitemau sydd o bwys i'w gilydd. Yn ogystal, cynhelir gweithrediadau ar y cyd mewn depos post i ddarganfod POAO anghyfreithlon.

Mae DAERA yn dadansoddi risg o sefyllfaoedd clefydau anifeiliaid byd-eang cyfredol, gan flaenoriaethu teithiau awyren perthnasol ar gyfer cynnal archwiliadau ac arolygaeth uwch.

# Adran 1 – Asesu risg/goruchwylio clefydau byd-eang

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, cynhaliodd a chyhoeddodd Defra 41 Asesiad Cychwynnol Clefydau sy'n Torri Allan ar gyfer clefydau megis Clwy Affricanaidd y Moch (ASF), Tafod Glas (BTV), Clwy'r Traed a'r Genau (FMD), Ffliw Adar Pathogenaidd Uchel (HPAI), Nychdod Cronig (CWD) a Chlefyd y Croen Talpiog (LSD), yn ogystal â chlefydau anifeiliaid eraill y gellir rhoi gwybod amdanynt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: gov.uk/government/collections/animal-diseases-international-monitoring. Rydym hefyd wedi darparu Asesiadau Risg Ansoddol ar HPAI, CWD a BTV i lywio cwestiynau polisi penodol am y risg gynyddol yn dilyn achosion o glefydau sy'n torri allan yn Ewrop. Roedd yr episotig H5N8 HPAI mawr yn Ewrop, gan ddechrau ym mis Hydref 2016 ac yn parhau hyd ganol 2017, yn ffocws pwysig ar gyfer ein gwaith, yn enwedig pan ddaeth y clefyd i'r DU. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa clefydau yn y DU hefyd ar yr un wefan.

## Newidiadau yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r effeithiau ar drefniadau ein systemau rheoli

Daeth nifer o gynhyrchion newydd yn amodol ar wiriadau milfeddygol mewn BIP ar 1 Ionawr 2017 oherwydd diwygiadau i Benderfyniad Comisiwn 2007/275/EC sy'n gosod rhestri anifeiliaid a chynhyrchion sy'n amodol ar wiriadau milfeddygol.

Roedd y newidiadau hyn yn effeithio ar nifer o gynhyrchion, gan gynnwys echdyniadau a chrynodiadau cig, capsiwlau gelatin gwag, a rhai ychwanegion bwyd a oedd wedi eu heithrio'n flaenorol o wiriadau milfeddygol ar y ffin.

Gweithiodd Defra, FSA, APHA ac awdurdodau lleol gyda'i gilydd i benderfynu ar amodau mewnforio ar gyfer cynhyrchion nad ydynt yn ddarostyngedig i amodau mewnforio'r UE a gysonwyd. Ar gyfer y newidiadau, roedd angen llawer o gymorth ychwanegol ar randdeiliaid yn ystod y cyfnod trosiannol. Mae'r gwaith yn parhau i gwblhau amodau mewnforio ar gyfer yr holl nwyddau nad yw eu hamodau mewnforio wedi eu cysoni.

## Newidiadau o ran trefn a strwythur awdurdodau cymwys a chyrff gorfodi eraill

Er bod hyn y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi i APHA ym mis Mehefin 2017 ganoli'r holl swyddogaethau gweinyddu mewnforion yn y Ganolfan Masnach Ryngwladol, Caerliwelydd. Mae hyn yn sicrhau cysondeb cyfarwyddiadau i dimau maes rhyngwladol a golwg ganolog ar fewnforion a masnach yr UE i mewn i'r DU.

# Adran 2 - Amddiffyn ac ymateb: rheoli ffiniau'r DU

## Amddiffyn: trafodion masnachol

Gallai anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o wledydd eraill greu risg gan y gallant drosglwyddo clefydau difrifol i bobl ac anifeiliaid. Ffactor allweddol wrth leddfu'r risg hon yw sicrhau bod yr anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i mewn i'r DU o aelod-wladwriaethau'r UE a thrydydd gwledydd yn ddiogel a'u bod yn bodloni'r amodau penodol ar gyfer mewnforio anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd a nodir yn neddfwriaeth yr UE.

### Masnach yr UE

Rhaid bod gan ddeunydd anifeiliaid a genetig a fewnforiwyd o wledydd eraill yr UE ardystiad iechyd anifeiliaid. Nid oes unrhyw reoli wrth y ffin, ond gellir cynnal gwiriadau ar y mewndir ar ôl mewnforio.

Fel rheol, nid oes angen i gynhyrchon anifeiliaid (cyhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwyta gan bobl ac is-gynhyrchion anifeiliaid nas bwriadwyd eu bwyta gan bobl) gael tystysgrif iechyd. Rhaid eu cynhyrchu, fodd bynnag, yn unol â gofynion yr UE ynghylch anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd, ac wrth eu cludo dylai fod ganddynt ddogfen fasnachol at ddibenion olrhain.

### Mewnforion anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid o drydydd gwledydd

Rhaid i anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a fewnforiwyd o drydydd gwledydd:

- Ddod o sefydliad cymeradwy mewn gwlad gymeradwy;
- Meddu ar adystiad iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd y cytunwyd arno fel y bo'n briodol; a
- Dod i mewn i'r UE mewn BIP[1] lle cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y llwyth yn bodloni amodau mewnforio.

Ni chaiff llwythi anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid ddod i mewn i'r DU ond ar ôl cynnal profion milfeddygol arnynt a sicrhau canlyniadau boddhaol, a bod Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin (CVED) wedi'i rhoi sy'n datgan bod y llwyth yn glir i'w fewnforio. Cynhelir y gwiriadau gan Swyddogion Milfeddygol, Llawfeddygon Milfeddygol Swyddogol (OVS) (cynhyrchion anifeiliaid) neu Arolygwyr Pysgod Swyddogol (OFI) (cynhyrchion pysgodfeydd).

Mae tri math o brawf milfeddygol:

- Profion dogfennol i wirio bod gan y llwyth y dogfennau cywir;
- Gwiriadau adnabod i wirio bod y dogfennau ategol yn cyfateb i'r llwyth;
- Gwiriadau ffisegol, sef gwirio'r llwyth ei hun, a allai gynnwys samplau labordy, gwiriadau ychwanegol yn ystod cwarantîn (anifeiliaid) neu wiriadau ar becynnu (cynhyrchion).

Gwiriadau ffisegol (mae 100% o'r holl lwythi'n ddarostyngedig i wiriadau dogfennau a gwiriadau adnabod. Cynhelir gwiriadau ffisegol ar yr holl lwythi anifeiliaid a chyfran o gynhyrchion anifeiliaid (rhwng 1% a 50% o lwythi).

Ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid mae gan OVS a OFI[2] bwerau i gynnal unrhyw wiriadau sy'n briodol yn eu golwg pan fyddant yn amau na chydymffurfiwyd â'r ddeddfwriaeth filfeddygol neu pan fo rhyw amheuaeth arall ynghylch y llwyth neu ei gyrchfan. Efallai y bydd adegau pan fydd angen gofyn, am gyfnod cyfyngedig, am lefel uwch o wiriadau ar lwythi o rai

1 Mae gan borthladdoedd a meysydd awyr yn y DU sydd â BIP gyfleusterau arbenigol ac maent yn hyfforddi staff sy'n ymdrin â mewnforion bwydydd risg uchel megis cig, cyhyrchion llaeth a physgod
2 Defnyddiwyd gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd Perthnasol

trydydd gwledydd (e.e. o ganlyniad i glefyd yn torri allan). O dan yr amgylchiadau hyn, caiff BIP wybod yn ysgrifenedig gan Defra neu'r FSA am unrhyw gynnydd dros dro yn lefel y gwiriadau gofynnol.

Cynhelir gwiriadau ffisegol ar becynnau a gymerwyd ar draws y llwyth, felly gallai fod angen dangos y cynwysyddion yn gyflawn neu yn rhannol. Nodir y gweithdrefnau samplo yn Atodiad II at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 136/2004[3]. Mae'r BIP yn cyflwyno samplau i: ddadansoddwyr cyhoeddus a benodir gan yr awdurdod lleol ar gyfer dadansoddi bwyd, Public Health England, labordai Dŵr a Microbioleg Amgylcheddol ar gyfer archwilio bwyd pan fo'n briodol, labordai eraill sydd wedi eu hachredu ar gyfer technegau dadansoddol penodol.

Yn unol â deddfwriaeth yr UE[4], rhaid darparu hysbysiad ymlaen llaw[5] i BIP am lwythi o gynhyrchion anifeiliaid cyn iddynt gyrraedd yn ffisegol ar diriogaeth yr UE. Rhaid rhoi hysbysiad ymlaen llaw bod anifeiliaid byw yn cyrraedd i BIP o leiaf un diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyrraedd disgwyliedig.

Am resymau gweithredol, argymhellir y dylid rhoi gwybod bod llwythi'n cyrraedd ymhell cyn y dyddiad cyrraedd disgwyliedig, yn enwedig mewn BIP lle nad oes staff parhaol.

Yn unol â deddfwriaeth yr UE, rhaid i aelodau-wladwriaethau sefydlu Cynllun Monutro Cenedlaethol ar gyfer gwargedion a heintyddion eraill. Y nod yw datblygu cynllun hyblyg yn seiliedig ar risgiau sy'n cysylltu'n agos â chynlluniau samplo unigol y BIP ac na fydd yn creu unrhyw gostau diangen i'r diwydiant. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar risgiau ac wedi'i dargedu gan ddefnyddio deallusrwydd a gwybodaeth y BIP, system casglu data ar y we Comisiwn yr UE, TRACES, a systemau casglu data'r FSA. Mae'r Cynllun yn gofyn am elfen o samplau a ddewisir ar hap i'w phenderfynu gan y BIP, ond sy'n adlewyrchu lefelau samplo cyfredol ar draws cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Dyluniwyd hyn i sicrhau na ellir gwneud unrhyw elfen ragfynegol o ran y cynhyrchion y gallai neu na allai unrhyw BIP eu samplo.

Rhaid bod gan yr holl gynhyrchion anifeiliaid a fewnforir ardystiad iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd, oni bai eu bod yn llwythi personol. Mae deddfwriaeth yr UE yn caniatáu cymryd camau diogelu priodol, a allai gynnwys gwahardd mewnforion cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n dueddol o ddal clefydau o bob rhan neu o rannau o wlad, os bydd clefyd yn torri allan sy'n dueddol o greu risg i iechyd pobl neu anifeiliaid.

Gallai mesurau diogelu ar rai bwydydd a fewnforir fod yn berthnasol i bob rhan neu ran o drydedd wlad, gwahardd mewnforion pob cynnyrch neu gynhyrchion penodol neu amodau arbennig a gofynion penodedig ar gyfer cynhyrchion penodol. Gweithredir y mesurau hyn, boed yn rhai cenedlaethol neu'n rhai'r UE, yn Lloegr gan y Datganiadau Argyfwng a wneir yn unol â Rheoliad 29 Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 a'r darpariaethau cyfatebol yn neddfwriaeth Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae methu â chydymffurfio â darpariaethau datganiad yn drosedd.

Cyflwynir gwybodaeth ynghylch cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â chynhyrchion trydedd wlad o fannau BIP i awdurdodau rheoli mewn aelod-wladwriaethau eraill sy'n defnyddio system gyfrifiadurol TRACES. Pan nodir bod deddfwriaeth filfeddygol yr UE a gysonwyd wedi ei thorri mewn modd difrifol neu'n barhaus, a bod hyn wedi'i gadarnhau gan y Comisiwn Ewropeaidd, cynhelir rhaglen o wiriadau wedi'u hatgyferthu ar lwythi o'r un sefydliad gwreiddiol yn y drydedd wlad y gwneir yr hysbysiad ar ei chyfer.

Ym mis Mawrth 2017, nododd adroddiadau yn y wasg dwyll sylweddol yn sector cig Brasil, sy'n goblygu Gwasanaethau Rheoli Swyddogol Brasil, yn enwedig ynghylch cig eidion. Yn

3 eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:021:0011:0023:en:PDF
4 Erthygl 3(3) Cyfarwyddeb 97/78/EC ac Erthygl 2(1) Reoliad 136/2004
5 a geisiwyd yn rhan gyntaf y CVED

dilyn cyfathrebiad gan y Comisiwn Ewropeaidd i lywodraeth Brasil, cytunwyd i wahardd y pedwar sefydliad a gymeradwywyd rhag allforio cig i'r UE. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno gwiriadau wedi eu hatgufnerthu ar Fannau Archwilio'r UE ar y Ffin, sy'n cynnwys 100% o wiriadau ffisegol a 20% o wiriadau microfiolegol ar gyfer yr holl fewnforion cig o Frasil.

## Ymateb: crynodeb o lwythi a fewnforiwyd o anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac is-gynhyrchion anifeiliaid

Nid oedd unrhyw newidiadau sylfaenol yn y lelel reoli ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir. Disgynnodd nifer y llwythi o gynhyrchion anifeiliaid a fewnforiwyd ychydig, o 58,498 yn 2015-16 i 42,501 yn 2016-17. Yn achos anifeiliaid byw a fewnforiwyd o drydydd gwledydd, disgynnodd nifer y llwythi o 9,708 yn 2015-16 i 9,261 yn 2016-17.

Parhaodd lefel cydymffurfiad cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ar gyfer mewnforion anifeiliaid trydedd wlad yn uchel iawn. Ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid a fewnforiwyd yn 2016-17, 1% yn unig o lwythi a wrthodwyd. Roedd y prif ddiffygion cydymffurfio yn wallau dogfennol, yn enwedig absenoldeb tystysgrif iechyd neu dystysgrif iechyd annilys. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd diffyg dealltwriaeth neu wybodaeth o reoliadau'r UE mewn trydedd wlad darddiad gan y mewnforiwr. Ar gyfer anifeiliaid byw, gwrthodwyd 59 o lwythi yn 2016-17.

Difawyd llwythi o gynhyrchion anifeiliaid a oedd yn creu risg i iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid. Fel arall, y mewnforiwr a wnaeth y penderfyniad i ailallforio neu ddifa llwythi a wrthodwyd. Ar gyfer anifeiliaid byw, gosodwyd y rhan fwyaf mewn cwarantîn tan i'r risg i iechyd anifeiliaid oddi wrthynt fod yn isel iawn neu iddynt gydymffurio â'r amodau mewnforio.

Mae'r tablau isod yn dangos manylion llwythi a wiriwyd a'r achosion o ddiffyg cydymffurfiad a ganfuwyd.

### Tabl 1 - Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac Is-gynhyrchion Anifeiliaid

| Blwyddyn (diweddariad) | Tystysgrifau | | | Y rhai a wrthodwyd | | Casgliadau ar y rhai a wrthodwyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Nifer | % o'r cyfanswm | Ailallforiwyd | Trawsffurfiwyd | Difawyd |
| 2016-17 | 42,501 | 42,501 | 100% | 421 | 1% | 111 | 1 | 311 |

Ffynhonnell data: APHA

### Tabl 2 - Anifeiliaid byw

| Blwyddyn (diweddariad) | Tystysgrifau | | | Y rhai a wrthodwyd | | Casgliadau ar y rhai a wrthodwyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Nifer | % o'r cyfanswm | Ailallforiwyd | Lladd | Ewthanasia |
| 2016-17 | 9,261 | 9,260 | 100% | 59 | 0.6 | 1 | 0 | 1 |

Ffynhonnell data: APHA

## Ymateb: Crynodeb o lwythi o blasm cenhedlu a fewnforiwyd

| Blwyddyn (diweddariad) | | | | Y rhai a wrthodwyd | | Casgliadau ar y rhai a wrthodwyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer a reolwyd | % a reolwyd | Nifer | % o'r cyfanswm | Ailallforiwyd | Trawsffurfiwyd | Difawyd |
| 2016-17 | 518 | 518 | 100% | 3 | 0.6% | 0 | 0 | 3 |

Ffynhonnell data: APHA
Caiff llwythi nad ydynt yn cydymffurfio eu hallforio neu eu difa. Trafodir problemau sy'n codi oherwydd gwiriadau gwaith papur gan aelod-wladwriaethau eraill yr UE â'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am ddarparu'r ardystiad iechyd.

## Gwaith cysylltiedig – Awdurdodi a Thrwyddedu Is-gynhyrchion Anifeiliaid nas bwriadwyd i'w bwyta gan bobl

| Awdurdodau a thrwyddedau a roddwyd ar gyfer mewnforio cynhyrchion ABP nas bwriadwyd i'w bwyta gan bobl (Ebrill 2016 – Mawrth 2017) diweddariad (yn cynnwys ABP Ymchwill a Dadansoddol) | | | |
|---|---|---|---|
| Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
| 277 (a 222 ohonynt ar gyfer Ymchwil a Dadansoddi) | 6 | 31 (y cwbl ar gyfer Ymchwiil a Dadansoddi) | |

Ffynhonnell data: APHA a DAERA

Mae'r rheolau ar gyfer masnach a mewnforio is-gynhyrchion anifeiliaid nad ydynt i'w bwyta gan bobl (ABP) wedi'u gosod yn bennaf yn neddfwriaeth yr UE a gysonwyd, sy'n gosod dogfennau masnachol model, tystysgrifau iechyd a datganiadau iechyd a datganiadau fel y bo'n briodol, yn enwedig ynghylch ABP a fwriadwyd i'w bwyta.

Mae'r Rheoliadau[6] hefyd yn darparu ar gyfer rhai nwyddau i'w hawdurdodu gan Awdurdod Cymwys y gyrchfan cyn eu mewnforio o wlad o'r tu allan i'r UE neu eu symud o aelod-wladwriaeth arall.

Fodd bynnag, oherwydd amrywiaeth fawr yr ABP a nifer y defnyddiau ar draws y diwydiant a ledled y byd, nid yw rheolau ar gyfer masnachu rhai is-gynhyrchion anifeiliaid wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth yr UE a gysonwyd. I hwyliso masnach, mae'r Rheoliadau'n caniatáu i Awdurdodau Cymwys osod eu Rheolau Cenedlaethol eu hunain lle nad oes amodau a gysonwyd wedi'u sefydlu.

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, crëwyd 13 o dempledi awdurdodi a 7 templed trwyddedig i ganiatáu rhai ABP a'u cynhyrchion deilliedig i'w mewnforio i'r DU yn unol â Rheoliadau'r UE a Rheolau Cenedlaethol. Crëwyd trwydded gyffredinol i ganiatáu mewnforion heb angen trwydded benodol/awdurdodiad i'w rhoi.

## Amddiffyn: mewnforion personol[7]

Mae'r Llu Ffiniau'n cyflawni gwaith rheoli ar anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir, a gorfodi'r Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl (CITES). Mae blaenoriaethau rheoliadau mewnforio anifeiliaid/cynnyrch o anifeiliaid wedi'u cyfyngu gan strategaeth reoli, ac wedi'u harwain gan ddeallusrwydd. Targedir llwybrau a phroffilau teithwyr/cludiant/post risg uchel, a defnyddir amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys

6 Rheoliad Comisiwn (CE) 1069/2009 a Rheoliad Comisiwn (UE) Rhif 142/2011
7 www.gov.uk/personal-food-plant-and-animal-product-imports

pelydr x a chŵn chwilio. Mae meysydd risg penodol yn cynnwys meddygaeth draddodiadol Tsieineaidd a masnach cig coedwig Affricanaidd.

## Ymateb: crynodeb o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd

Mae'r Llu Ffiniau wedi parhau i ddal POAO â ffocws, dan arweiniad deallusrwydd ar y ffin yn 2016-17. Ymhlith y rhain, atafaelwyd 600+kg o POAO unigol, gan gynnwys llaeth a chynhyrchion llaeth, o UEA ar deithiau awyren preifat i mewn i Farnborough; 60+kg o POAO cudd a gariwyd gan gogydd Tsieineaidd i mewn i Faes Awyr Norwich; 100+kg o bryd pysgod sych Mbahal a gyfeiriwyd i'r Llu Ffiniau gan Iechyd y Borthladd yn Felixstowe; 29kg o POAO cudd mewn llwyth o Nigeria a ganfuwyd yng Nghludiant Awyr Manceinion; 30+kg o POAO a atafaelwyd yn Gatwick gan deithiwr o Albania; 60+kg o POAO o Cameroon a atafaelwyd gan deithiwr yn Heathrow; a 2.6 tunnell o POAO imewn cynhwysydd yn Southampton.

Mae'r pethau hyn a atafaelwyd yn rhoi amcan o lefel y gweithgarwch darganfod, gwaith gyda phartneriaid, a chwmpas y bygythiadau POAO a wrthwynebir, ar draws holl bortladdoedd Llu'r Ffiniau ac mewn pob dull
Nodir nifer y cynhyrchion anghyfreithlon o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a atafaelwyd gan y Llu Ffiniau yn Atodiad A. Rhwng y cyfnod adrodd 2016-2017 mewn porthladdoedd môr, lleihaodd nifer y cynhyrchion a fewnforiwyd yn anghyfreithlon a atafaelwyd 36% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2015-16 – 9,810).

Roedd y nifer uchaf a atafaelwyd gan deithwyr a oedd yn dychwelyd o wledydd anhysbys, De a De-ddwyrain Asia, yr UE, y Dwyrain Agos a Chanol, Dwyrain Ewrop a De Asia. Mae digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon (gan gynnwys dathliadau) yn adegau y gellid disgwyl y byddai nifer y cynhyrchion a atafaelwyd yn cynyddu. Mae'r rhain wedi amrywio o ran maint a math o gynnyrch, o gig amrwd a ddadbaciwyd a chaws ffres i ddiodydd llaeth a chiwbiau stoc. Parhaodd y rhan fwyaf o'r hyn a atafaelwyd i fod yn llai na 20kg, gan ddilyn patrwm traddodiadol grwpiau teuluol bach, pobl fusnes a myfyrwyr yn teithio i'r DU.

Sylwer: yng Ngogledd Iwerddon, drwy gydol y cyfnod adrodd, cynyddoedd y mewnforion personol a atafaelwyd 40% (o ran nifer) o'u cymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Atafaelwyd nifer sylweddol o nythod adar o Tsieina, ghee o India a biltong o Dde Affrica, yn ogystal â chig ceffyl o Rwsia a chig asyn o Tsieina.

# Adran 3 – Sicrwydd: rheolau ôl-ffiniau'r DU

## Rheoliadau mewnforio mewndirol: monitro a goruchwylio

### FSA - Gorfodi a deallusrwydd

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, cyhoeddodd y DU 510 hysbysydiad ‘rhybuddio' a ‘gwybodaeth' drwy system RASFF yr UE. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae cynhyrchion bwyd o wledydd y tu allan i'r UE yn torri gofynion diogelwch y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid ac wedi eu gwrthod. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi sefydlu gweithdrefn weithredu safonol i dynnu sylw gwledydd y tu allan i'r UE am broblemau sy'n effeithio ar fwyd. Mae RASFF yn rhybuddio Awurdodau Iechyd Porthladdoedd a'r awdurdodau lleol mewn porthladdoedd i'w cynorthwyo i dargedu eu gwiriadau ar lwythi mewnforion bwyd sy'n dod i mewn.

Mae lefel, ffocws ac amlder rheoliadau mewnforio FSA mewndirol yn seiliedig ar risg ac wedi'u llywio gan ffactorau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mesurau diogelu'r UE;
- hysbysiadau System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF); a
- Gwybodaeth leol neu flaenoriaethau.

Gallai hyn gynnwys canlyniadau samplau iechyd porthladd hanesyddol o'r Rhaglen Gydlynol Genedlaethol Samplo Seiliedig ar Risg Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

Cangen Achosion yr FSA yw pwynt cyswllt y DU ar gyfer hysbysiadau RASFF – sef dull allweddol ar gyfer sicrhau llif gwybodaeth ar draws ffiniau i ymateb yn gyflym pan ganfyddir risgiau i iechyd y cyhoedd yn y gadwyn fwyd. Defnyddir system RASFF yr UE gan yr FSA i lywio a chymell camau i'w cymryd gan y Comisiwn Ewropeaidd neu aelod-wladwriaethau eraill.

Mae Rhybuddion Bwyd yn rhoi'r wybodaeth i'r FSA ei chyfathrebu i awdurdodau lleol a defnyddwyr am broblemau sy'n gystlltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid, ac mewn rhai achosion, yn darparu manylion camau penodol i'w cymryd. Mae'r gwahanol gategorïau rhybuddion a hysbysiadau gwybodaeth a roddwyd fel a ganlyn:

- **Rhybuddion Bwyd ar gyfer Gweithredu** – rhoddir y rhain pan fydd angen camau gorfodi gan awdurdodau lleol;
- **Hysbysiadau Gwybodaeth Adalw Cynhyrchion** – tynnu sylw awdurdodau lleol at achos;
- **Rhybuddion Alergedd** – fe'u rhoddir pan fydd angen tynnu cynhyrchion yn ôl ac mae risg i ddefnyddwyr, am fod y label ar goll neu'n anghywir ac mae risg o ymateb alergaidd difrifol.

## Goblygiadau Awdurdodau Lleol

Rhaid bod pob mewnforiwr a brocer bwyd wedi eu nodi a'u cofrestru'n Weithredwyr Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Dylid eu cynnwys yn rhaglen ymyrryd bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer yr awdurdod lleol perthnasol. Dylid nodi a chofnodi y sefydliadau sy'n gyrchfan gyntaf ar ôl mewnforio. Gallai'r rhain gynnwys sefydliadau a ddefnyddir ar gyfer storio, prosesu, a/neu drafod, prynu neu werthu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Dylid datblygu gweithdrefnau ar gyfer rheoli mewnforion yn unol â'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Awdurdodau Lleol, Côd Ymarfer (ac Arweiniad Ymarfer) y Gyfraith Fwyd a'r dogfennau canllaw cysylltiedig gan Defra. Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried bwyd a fewnforiwud a gynigir i'w werthu gan fusnesau bwyd yn elfen reolaidd o hylendid bwyd ac archwiliadau safonau. Dylent hefyd ymchwilio a chymryd camau priodol mewn perthynas â

mewnforion anghyfreithlon (amheus), mewnforion a allai achosi risg i iechyd y cyhoedd, neu anifeiliaid a mewnforion nad ydynt yn bodloni gofynion diogelwch bwyd.

Mae protocolau rhannu gwybodaeth ar waith er mwyn i'r Llu Ffiniau drosglwyddo manylion yr hyn a atafaelwyd a oedd yn mynd i sefydliadau masnachol i'r FSA. sy'n dadansoddi'r wybodaeth. Trosglwyddir y wybodaeth hon i'r awdurdod lleol perthnasol pan fo'n briodol. Trosglwyddir manylion ymchwiliadau'r awdurdodau lleol yn ôl i'r Llu Ffiniau a'r FSA i lywio gwaith targedu yn y dyfodol ac i Defra at ddibenion ystadegol.

Yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y cyfnod adrodd, bu rhagor o gysylltiadau rhwng awdurdodau iechyd porthladdoedd a chynghorau mewndirol er mwyn codi proffil ac arwyddocâd POAO a fewnforir, a rhannu gwybodaeth i sicrhau cydymffurfiad. Datblygwyd cronfa ddata newydd o fusnesau masnachol sy'n rhan o fewnforio POAO a FNAO. Mae hyfforddiant i Awdurdodau Mewndirol wedi ei gynllunio ar gyfer 2018/19.

## APHA – Gorfodi

At ddibenion iechyd anifeiliaid, mae gwahaniaeth pendant rhwng y modd y caiff symudiadau yn yr UE (sef masnach intra'r UE fe y cyfeirir ati'n gyffredin) a mewnforion o drydydd gwledydd eu trin.

Mae ystod eang o ofynion wedi'u cysoni ynghylch iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd y mae'n rhaid i bob aelod-wladwriaeth lynu wrthynt. Ar gyfer anifeiliaid byw, fel arfer mae'n ofynnol bod gan bob llwyth dystysgrif iechyd a ddilyswyd gan Filfeddyg Swyddogol yn y wlad darddiad.

Mae symudiad masnach rydd yn golygu bod llwythi o aelod-wladwriaethau eraill yn teithio'n syth i gyfeririad eu cyrchfan heb wiriadau milfeddygol. Yn y rhan fwyaf o achosion (ac eithrio ardystiadau iechyd ceffylau), rhoddir tystysgrif iechyd ar System Rheoli Masnach ac Arbenigol (TRACES) yr UE 24 awr cyn ei anfon.

Rhan o rôl APHA yw gwirio cyfran o'r dogfennau ar-lein, a phan fo'n briodol, anifeiliaid yn eu cyrchfan. Mae hyn yn cynnwys cynnal gwaith goruchwylio a samplo rheolaidd ar ôl mewnforio ar anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid fel rhan o waith monitro clefydau rhyngwladol er mwyn atal y risg o fewnforio a lledu clefyd i mewn i'r DU a ledled y DU.

Mae APHA wedi parhau i weithredu'r "Cynllun Peilot Cŵn Bach" yn Dover ac yn Coquelles – nod y gwaith hwn yw nodi a mesur diffyg cydymffrfiad â rheoliadau'r Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes. Nodwyd bod cŵn a chŵn bach yn cael eu symud heb gydymffurfiad trwy'r Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes pan fo bwriad y symud yn fasnachol ac y bwriedir gwerthu neu newid perchennog y cŵn. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'r symudiadau hyn â chŵn a werthir yn y DU. Cynhaliwyd y fenter hon gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth y Cŵn, sy'n talu am gwarantîn unrhyw gŵn bach a atafaelwyd. Nodwyd diffyg cydymffurfiad ynghylch llesiant wrth gludo, ac yn ystod y peilot, yr achosion mawr o ddiffyg cydymffurfio oedd bod cŵn bach yn iau na'r hyn a nodir yn eu pasbort, gan olygu eu bod o dan oedran adeg eu brechu. O ganlyniad i'r cynllun peilot, o fis Rhagfyr 2015 tan fis Gorffennaf 2017 cafodd 296 o gerbydau eu hatal, ac atafaelwyd 985 o gŵn a chŵn bach, gyda 637 o'r rhain yn cael eu rhoi mewn cwarantîn. Ar hyn o bryd, cyflawnir y gwaith hwn ar y cyd â chydweithwyr yn y Llu Ffiniau a'r cludwyr yn Dover, neu yn ystod gweithrediadau a dargedwyd yn Coquelles.

Yng Ngogledd Iwreddon, cynhaliwyd gweithrediadau penodol ym mhorthladdoedd Belfast a Larne ym mis Rhagfyr 2016 i atal symudiadau anghyfreithlon. Gwiriwyd dros 600 o geir a 150 o gerbydau masnachol, ac ataliwyd 30 o gŵn bach rhag teithio ymlaen.

## Effeithiau clefydau sy'n torri allan yn yr UE ar fasnach

Rhwng Mawrth 2016 ac Ebrill 2017 bu 10 achos o glefydau'n torri allan H5N8 HPAI mewn dofednod yng Nghymru a Lloegr. Am y tro cyntaf, nodwyd achosion mewn preiddiau iard gefn yng Nghaerfyrddin, Gogledd Swydd Efrog a Northumberland; a hefyd tri achos mewn twrcïod pesgi yn Swydd Lincoln, tri mewn adar helwriaeth yn Swydd Gaerhirfryn ac un mewn ieir dodwy yn Swydd Suffolk. Roedd hyn yn erbyn cefndir achos digynsail o adrodd am glefydau o'r un firws ar draws Ewrop, y Dwyrain Canol, Gogledd Affrica a Gorllewin Affrica yn ystod yr un cyfnod. Hwn oedd yr episotig mwyaf a welwyd ers 12 mlynedd yn Ewrop, a'r DU oedd un o'r aelod-wladwriaethau lle cafwyd yr effaith leiaf, a oedd yn dyst i'r bioddiogelwch da yn ein diwydiant dofednod a'n mesurau cyflym i reoli mesurau. Ar draws yr UE, mae miloedd o adar dŵr marw wedi cael profi'n bositif, yn ogystal â rhywogaethau eraill o adar gwyllt, a nododd y DU gyfan nifer bach o ganfyddiadau mewn adar gwyllt, o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Yn Ewrop, bu miloedd o achosion ymhlith dofednod, ac effeithiwyd ar bron pob aelod-wladwriaeth. Yn achosion y DU, mae'n debygol bod lledaid y clefyd i ffermydd o ganlyniad i gysylltiad ag adar gwyllt. Ataliwyd llediad eilaidd unwaith y sefydlwyd mesurau rheoli clefydau.

Oherwydd yr episotig a'r risg barhaus o adar gwyllt, parhaodd yr achosion (er nad oeddent yn niferus iawn) am nifer o fisoedd, ac ar ôl y cyfnod adrodd bydd y Deyrnas Unedig yn gwneud cais am statws di-haint cyn gynted â phosib, a fydd siŵr o fod ym mis Medi 2017. Roedd gwaharddiad ar fasnach yr UE wedi ei chyfyngu i gyfnod amser yn neddfwriaeth yr UE (21 o ddiwrnodau ar ôl glanhad terfynol a diheintio, pan godir parthau) a masnach trydedd wlad ar ôl C&D eilaidd ar gyfer y rhanbarth (sir) lle digwyddodd yr achos.

Yn haf 2016-2017, ailymddangosodd y clefyd episotig Tafod Glas (BTV-8 yn Ffrainc a BTV-4 yn ne-ddwyrain Ewrop) a ddigwyddodd yn 2015-2016, ond nododd y DU na fu unrhyw achosion. Ni chaiff y clefyd lawer o effaith ar fasnach, a hynny'n bennaf ar gynhyrchion eginol ac anifeiliaid byw yn unig, os na ddefnyddir brechlyn. Roedd brechlyn ar gael i ffermwyr y DU, ond am na chynyddodd y risg i'r DU yn sylweddol, ychydig yn unig a fanteisiodd arno.

Parhaodd Clefyd y Croen Talpiog i ledu ar draws de-ddwyrain Ewrop yn ystod haf 2016, a defnyddiwyd brechiadau brys yn adeithiol ac yn rhagweithiol mewn gwledydd yr effeithiwyd arnynt neu a oedd â risg uchel. Mae'r DU yn diweddaru'r cynllun wrth gefn a'r cynlluniau paratoi ar gyfer clefydau er mwyn ystyried y newid risg o ran y clefyd hwn.

Parhaodd Clwy Affricanaidd y Moch i ledu mewn baeddod gwyllt o gwmpas dwyrain yr UE (Gwlad Pwyl, Estonia, Latfia a Lithwania) yn 2016-2017, ac mae'n rhoi pwysau ar y diwydiant moch yn y rhanbarthau hyn, gan orlifo o bryd i'w gilydd i'r iard gefn a hyd yn oed i ffermydd moch domestig. Mae'r gwaharddiad ar allforion cig moch o'r UE i Rwsia yn parhau mewn grym er gwaetha'r achos parhaus gerbron Sefydliad Madsnach y Byd (WTO).

# Adran 4 – Gweithio gyda'n gilydd: Cydlynu a chydweithredu

## Gweithdrefnau

Gweithiodd Defra a'r Llu Ffiniau gyda'i gilydd i symud o gytundeb lefel gwasanaeth i Strategaeth Orfodi newydd. Mae hyn yn diffinio amcanion cyffredin i leihau'r risg a achosir gan gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir yn anghyfreithlon i'r lefel isaf bosibl. Amcan y strategaeth yw gwella'n barhaus y gallu i gyflawni gwaith dadansoddi ac adrodd effeithiol. Y nod yn hyn o beth yw sicrhau dull gwell o adrodd ar gyfer deallusrwydd a gwybodaeth rheoli. Ategir y Strategaeth Orfodi gan Gytundeb Darparu.

Mae Defra'n adolygu Llawlyfr y BIP[8] i ystyried newidiadau yn neddfwriaeth yr UE ac ymgorffori cyfarwyddiadau o nodiadau OVS a gyhoeddwyd yn y flwyddyn flaenorol. https://www.gov.uk/government/collections/guidance-on-importing-and-exporting-live-animals-or-animal-products. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Milfeddygon Swyddogol sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau ar y ffin yr holl wybodaeth a'r arweiniad angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwaith hwn. Gan gynnwys nodiadau ychwanegol:

http://apha.defra.gov.uk/official-vets/Guidance/bip/ovs-notes.htm

Cynhelir cyfarfodydd cysylltu rheolaidd rhwng holl staff y prif fannau archwilio ar y ffin (BIP), Defra a'r FSA. Mae'r cyfarfodydd yn fforwm ar gyfer rhannau arfer gorau, trafod deddfwriaeth newydd a lle rhoddir diweddariadau i staff BIP.

Recriwtiodd APHA ddau Swyddog Gwybodaeth yn nhîm y Ganolfan Reoleiddio yn 2016. Mae'r rhain yn gweithredu ar draws yr asiantaeth, ond o ran memforion, daw gwybodaeth am gapasiti o ffynonellau gan gynnwys y Ganolfan Masnach Ryngwladol a staff maes porth mewn perthynas â Rheoli Ffiniau, yn ogystal ag awdurdodau lleol. Mae'r dadansoddwyr wedi ymweld â gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Sefydliad(au) Anllywodraethol (NGO) a phartneriaid gweithredol, ac maent yn casglu gwybodaeth yn gronfa wybodaeth gan ddatblygu systemau i rannu'r wybodaeth hon â chyrff priodol ar y ffin er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau diffyg cydymffurfio. Cynhelir cyfarfodydd rhwng APHA, y Ganolfan Masnach Ryngwladol a'r Swyddogion Gwybodaeth i rannu gwybodaeth ac i ddatblygu perthnasoedd gweithio.

## Rhaglenni hyfforddi

Cyrsiau BIP – aeth 36 o Lawfyddygon Milfeddygol Swyddogol ac Arolygwyr Pysgog Swyddogol y DU sy'n gyfrifol am gynnal gwiriadau mewnforio mewn mannau BIP i weithdai BIP a drefnwyd gan APHA. Nodwyd rhai gofynion hyfforddi yn ystod archwiliadau BIP e.e. deddfwriaeth newydd neu a oedd wedi newid, meysydd rheoli lle'r oedd problemau'n codi oherwydd defnydd anghyson o reolau gwiriadau milfeddygol. Anfonwyd holiaduron cyn y diwrnod hyfforddi, gam roi gwybodaeth werthfawr am lefel gwybodaeth y rhai a oedd yn bresennol, ac ar sail hyn cynlluniwyd digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd. Mae gofyn i gynrychiolwyr o bob BIP fynd unwaith bob dwy flynedd ac i rannu gwybodaeth â'u cydweithwyr.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cydlynodd a chyflwynodd yr FSA chwe chwrs i 111 i swyddogion awdurdodedig yn y DU. Bwriadwyd y cyrsiau ar gyfer swyddogion iechyd porthladdoedd, gan gynnwys rhai â llai o gyfrifoldebau man mynediad ac awdurdodau lleol mewndirol. Roedd y cyrsiau'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

8 Mae Llawlyfr y BIP yn cynnig arweiniad ar weithredu deddfwriaeth ynghylch gwiriadau ar gynhyrchion anifeiliaid a fewnforiwyd o drydydd gwledydd. Mae'n cynnwys deddwriaeth yr UE a rheoliadau cenedlaethol sy'n berthnasol i fannau BIP ac yn egluro rhaniad cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer awdurdodau gorfodi sy'n cynnal gwiriadau milfeddygol.

- Rheoli Bwyd a Fewnforir yn Effeithiol i Swyddogion Mewndirol,
- Diweddariad Effeithiol ar Fwyd a Fewnforir,
- Rheoli Bwyd a Fewnforir mewn Porthladoedd Bach,
- Rheoli Bwyd a Fewnforir yn Effeithiol i Awdurdodau Mewndirol,
- Diweddariad ar Fwyd a Fewnforir i Swyddogion Porthladdoedd.

Cynlluniwyd y cyrsiau a fwriedir ar gyfer swyddogion mewndirol i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn deall y gorfodi angenrheidiol a'r peryglon sy'n gysylltiedig â bwydydd a fewnforir.

Mae'r FSA yn parhau i gefnogi a chydlynu ceisiadau gan swyddogion awdurdodedig i fynd i gyrsiau a gynhelir gan y Tîm Hyfforddiant Gwell ar gyfer Bwyd Mwy Diogel. Mae hyn yn sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn deall rheoli swyddogol ar lefel fanylach ac yn meithrin perthnasoedd yn rhyngwladol i gysoni rheoli ag aelod-wladwriaethau eraill.

Hyffirddiant Gwell ar gyfer Bwyd Mwy Diogel (BTSF) y Comisiwn Ewropeaidd - aeth 35 o gynrychiolwyr o'r DU i gyrsiau hyfforddi BIP a drefnwyd drwy'r rhaglen BTSF. Roedd y pynciau'n cynnwys TRACES, rheoli mewnforion, cynhyrchion cyfansawdd ad POAO. Nod y gweithdai hyn yw gwella gwybodaeth am ofynion deddfwriaethol a rhannu arferion rheoli gorau ymhlith personél rheoli ffiniau aelod-wladwriaethau. Rhannwyd deunyddiau dysgu BTSF BIP i staff rheoli swyddogol trwy gyrsiau mewnol.

## Ymgyrchoedd diogelwch, ansawdd a gwybodaeth

Mae'r Llu Ffiniau'n parhau i arwain ar gyhoeddusrwydd i'r cyhoedd ynghylch y rheoliadau cyfredol ar gyfer mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn porthladdoedd a meysydd awyr ac mae'n gweithio'n agos gyda Defra ar strategaethau cyfathrebu a marchnata cydlynol: Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaeth yr FSA y canlynol:

- Rhoi cyfanswm o 88 o hysbysiadau i swyddogion awdurdodedig yn Lloegr i roi arweiniad ar faterion gorfodi ynghylch iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid. Mae cofrestr ganolog yr ohebiaeth sy'n ymwneud â gorfodi ar gael yn www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/centralref/enf-england,
- Cynnal hafan benodol ar gyfer bwyd a fewnforir: www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/enforce_authorities. Mae hon yn ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr am reoli bwyd a fewnforir, a chaiff ei diweddaru'n barhaus.

## Rhaglen archwilio BIP

Mae APHA yn cynnal archwiliadau ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth ddomestig ynghylch gweithdrefnau a chyfleusterau.

Yn ystod y cyfnod adrodd roedd yr archwiliadau a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Asesiad llawn o'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan staff BIP wrth arolygu mewnforion swyddogol,
- Asesu addasrwydd y cyfleusterau ar gyfer y rheoli gofynnol,
- Asesu effeithiolrwydd y gwiriadau dilysu gan yr awdurdod gorfodi lleol. Mae'r gwiriadau dilysu'n hanfodol fel cam cyntaf wrth sicrhau bod y cyfleusterau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac y cynhelir profion milfeddygol yn unol â'r cyfarwyddiadau yn Llawlyfr y BIP, deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth ddomestig.

Cynhaliwyd archwiliadau a oedd yn seiliedig ar risgiau ac ymweliadau cysylltu (ymweliadau anffurfiol â BIP rhwng aechwiliadau ffurfiol) mewn mannau BIP cynhyrchion gan yr APHA yn y modd canlynol:

- BIP Cynhyrchion – cafodd y rhan fwyaf o fannau trwygyrch uchel a chanolig BIP un archwiliad o'u gweithdrtefnau ac un o'u cyfleusterau yn ystod y flwyddyn. Cafodd mannau trwygyrch isel

BIP un archwiliad y flwyddyn, ac archwiliwyd y cyfleusterau neu'r gweithdrefnau yn ystod yr ymweliad hwn.
- Mannau BIP ar gyfer anifeiliaid byw – Cynhelir archwiliadau sicrwydd mewnol annibynnol unwaith y flwyddyn gan y Tîm Sicrhau Ansawdd Gweithrediadau (OQA), gyda chymorth arbenigwyr technegol a milfeddygol gan y Ganolfan Masnach Ryngwladol – Caerliwelydd (CITC).

Nod yr archwiliad blynyddol yw darparu sicrwydd bod y mannau BIP yn cael eu gweithredu yn unol â'r safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt yn y Llawlyfr Gweithrediadau, a bod y cyfleusterau a'r lefelau staffio'n ddigonol ar gyfer gweithredu'r BIP yn effeithiol. Bydd y Tîm Archwilio yn cadranhau a gynhaliwyd gwiriadau'n briodol ac yn gywir ai peidio, yn unol â chyfarwyddiadau Llawlyfr Gweithrediadau APHA a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Bydd dwy ran i'r arolygiad blynyddol:

- **rhan 1** - gwirio'r CVED gan ddefnyddio'r cwestiynau yn y tab 'gwiriadau CVED' yn Adroddiad Crynodol BIP Anifeiliaid Byw - Gwiriadau Hunan-Sicrhau (BI04).
- **rhan 2** - gwiriadau ar:
  - y strwythur
  - y cyfleusterau
  - hyfforddiant a
  - samplo.

### Y Llu Ffiniau/Cydweithredu Defra

Mae buddiannau bioddiogelwch Defra'n cynnwys iechyd anifeiliaid, planhigion ac anifeiliad dyfrol, a rhywogaethau ymledol anfrodorol, gan gynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Mae'r Adran wedi asesu ein hagwedd at risgiau a materion sy'n gysyllltiedig â bioddiogelwch ar draws continwwm gweithgareddau bioddiogelwch - cyn y ffin, ar y ffin ac oddi mewn i'r DU.
Cynhaliwyd Cyfarfodydd Bioddiogelwch Misol Gweinidogol (MBM) yn ystod y cyfnod adrodd i sicrhau bod modd uwchgyfeirio risgiau bioddiogelwch yn amserol a darparu goruchwyliaeth a chyfarwyddyd strategol. Mae methodoleg newydd ar gyfer asesu risgiau wedi galluogi asesu risgiau i iechyd anifeiliaid a phlanhigion gyda'i gilydd, o ran tebygolrwydd ac effeithiau.

Yn rhan o'r gwaith ehangach ar fioddiogelwch, nod Defra yw cynyddu ymwybyddiaeth o reolau bioddiogelwch y DU a chydymffurfiad â'r rheolau hyn ynghylch mewnforio planhigion ac anifeiliaid, ar sail gorfodi effeithiol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Yn ystod 2014-15, cryfhawyd perthynas strategol â'r Llu Ffiniau i wella gweithio ar y cyd. Cyflawnwyd hyn trwy gytundeb i gydlynu gweithgarwch tasgio yn y dyfodol yn unol â blaenoriaethau gweithredol a rhannu gwybodaeth. Ffurfiolwyd y cytundeb a llofnodwyd Cytundeb Cydweithredu Cenedlaethol ym mis Mai 2016. Gweithiodd Defra a'r Llu Ffiniau gyda'i gilydd i wneud Iechyd Planhigion yn flaenoriaeth benodol yn strategaeth reoli'r Llu Ffiniau, gan godi proffil y mater a galluogi cynllunio a darparu gweithgarwch amlasiantaeth cydlynol yn erbyn bygythiadau i iechyd planhigion ar y ffin.

# Adran 5 – Edrych ymlaen 2017-18

### Y Llu Ffiniau a Defra

Mae strwythurau tasgio a chydlynu'r Llu Ffiniau yn galluogi ymagwedd strategol at gynllunio a chyflawni gweithrediadau cenedlaethol, a chynhelir ymartrfion dwysáu bob hyn a hyn yn erbyn proffiliau risg penodol. Ffocws amlasiantaeth, gyda DEFRA ac asiantaethau eraill yn darparu'r

amcan strategool a'r sylfaen wybodaeth ar gyfer gweithrediadau, sy'n gyrru'r gweithgarwch gorfodi ar y ffin. Yn 2016/17, atafaelodd y Llu Ffiniau dros 5,000 o fewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, a chaiff dros dunnell o'r deunydd hwn ei atafael ym mhorthladdoedd y DU bob mis.

## Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011 (Lloegr) (TARP)

Mae'r Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid 2011 SI 1197 (TARP) yn gweithredu cyfraith yr UE ar reoli milfeddygol ar y ffin i sicrhau bod yr anifeiliaid byw a'r cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n dod i mewn i Loegr o aelod-wladwriaethau eraill a thrydydd gwledydd yn ddiogel ac yn bodloni amodau mewnforio penodedig yr UE. Mae dyletswydd statudol ar Defra i adolygu'r rheoliadau bob pum mlynedd i gadarnhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion. Ar hyn o bryd, mae'r adolygiad cyntaf ar waith.

## Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid

Y dyddiadau allweddol ar gyfer Rheoliad (EU) 2016/429 ar Glefydau Anifeiliaid Trosglwyddiadwy a Diddymu Rhai Deddfau ym Maes Iechyd Anifeiliaid:

- Dyddiad cyhoeddi 31 Mawrth 2016
- Daeth i rym – 21 Ebrill 2016
- Dyddiad cymhwyso – 21 Ebrill 2021

Yn y misoedd/blynyddoedd i ddod, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno deddfwriaeth ddrafft sy'n cyflwyno'r rheolau manwl a fydd yn berthnasol i fasnach a mewnforion anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid. Bydd Defra a'r FSA yn gweithio gyda'i gilydd i asesu a thrafod y rheolau manwl hyn.

## Adolygiad Rheoli Swyddogol

Caiff Rheoliadau RHeoli Swyddogol newydd sy'n pennu perfformiad rheolaeth swyddogol a gweithgareddau eraill gan awdurdodau cymwys eu cyflwyno yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y dyddiadau allweddol yw:

- Dyddiad cyhoeddi: 7 Ebrill 2017
- Daeth i rym – 27 Ebrill 2016
- Dyddiad cymhwyso – 14 Rhagfyr 2019

Yn yr un modd â Rheoliad Iechyd Anifeiliaid, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno deddfwriaeth ddrafft sy'n cyflwyno'r rheolau manwl a fydd yn berthnasol i fasnach a mewnforion anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid. Bydd Defra a'r FSA yn gweithio gyda'i gilydd i asesu a thrafod y rheolau manwl hyn.

## Gadael yr UE

Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yr UE, a phleidleisiodd pobl y Deyrnas unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Tan i'r trafodaethau gadael ddod i ben, bydd y DU yn parhau'n aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd, ac mae holl hawliau a rhwymedigaethau aelodaeth yr UE yn parhau mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y llywodraeth yn parhau i drafod, gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Pen draw'r trafodaethau hyn fydd yn penderfynu pa drefniadau o ran deddfwriaeth yr UE fydd yn berthnasol yn y dyfodol pan fydd y DU wedi gadael yr UE.


Mae nifer o ffrydiau gwaith wedi dechrau ystyried effeithiau sefyllfaoedd posib o ran gadael yr UE, ac mae APHA yn rhan bwysig o'r gwaith hwn o ran mewnforion anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid.

# Atodiad A: Ystadegau mewnforion cynhyrchion anghyfreithlon

At ddibenion yr ystadegau, cyfeiria 'anghyfreithlon' at gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a atafaelwyd am eu bod yn eitemau gan unigolion a oedd yn torri'r consesiynau persomol a ganiateir neu lwythi masnachol sydd wedi ceisio osgoi gweithdrefnau mynediad cywir trwy beidio â chael ei ddatgan mewn Man Archwilio ar y Ffin. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn cynnwys eitemau a ildiwyd yn wirfoddol gan deithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr.


Mae'r ffigurau'n dangos nifer a phwysau'r hyn a atafaelwyd gan y Llu Ffiniau, DAERA, a'r nifer a atafaelwyd gan awdurdodau lleol mewndirol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd mewn mannau mynediad perthnasol.

**Graffiau sy'n dangos cyfanswm yr hyn a ddaliwyd, gan gynnwys eu pwysau (2016-2017)**



## Nwyddau clud a ddaliwyd


### Pwysau (kg) yr hyn a ddaliwyd



## Nifer a ddaliwyd, gan gynnwys pwysau, fesul rhanbarth yn 2016-2017


| ID/Enw Rhanbarth | Tabl x: Nifer a ddaliwyd (gan gynnwys pwysau) fesul rhanbarth yn 2016-2017 | |
|---|---|---|
| | Nifer yr Eitemau a Ddaliwyd | Pwysau (kg) |
| Dwyrain Ewrop | 367 | 1,775 |
| Dwyrain Affrica | 80 | 561 |
| Gogledd Affrica | 51 | 197 |
| Canolbarth Affrica | 28 | 374 |
| De Affrica | 71 | 102 |
| Gorllewin Affrica | 255 | 5,747 |
| Gogledd America | 305 | 5,207 |
| Y Caribî | 86 | 379 |
| Caolbarth a De America | 55 | 213 |
| Dwyrain Asia | 999 | 29,004 |
| De Asia | 428 | 1,473 |
| De-ddwyrain Asia | 185 | 324 |
| Y Dwyrain Agos a Chanol | 463 | 4,918 |
| Ynysoedd y De | 14 | 2,038 |
| Ewropeaidd | 2 | 5 |
| Anhysbys | 2870 | 17,311 |
| Yr UE | 566 | 7 |
| **Cyfanswm** | **6,825** | **69,634** |

## Siart Cylch 1 ar gyfer Tabl 1: nifer y cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a ddaliwyd fesul rhanbarth yn ystod 2016-2017



## Siart Cylch 2 ar gyfer Tabl 1: Pwysau cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a ddaliwyd fesul rhanbarth yn ystod 2016-2017

# Pwysau (kg) yr hyn a ddaliwyd fesul rhanbarth yn ystod 2016-17



# Atodiad B: Rhestr byrfoddau ac acronnymau a ddefnyddi irryn gyffredinol

| | |
|---|---|
| **ABP** | Sgîl-gynhyrchion anifeiliaid |
| **ASF** | Clwy Affricanaidd y Moch |
| **APHA** | Asiantaeth Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid |
| **BIP** | Man(nau) Archwilio ar y Ffin |
| **CA** | Awdurdod Cymwys |
| **CVED** | Dogfen Mynediad Milfeddyfol Gyffredin |
| **CVO** | CVO – Prif Swyddog Milfeddygol |
| **DAERA** | Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn (ers Mai 2016 daeth DARD yn DAERA) |
| **Defra** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **EC** | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| **Yr UE** | Yr Undeb Ewropeaidd |
| **FMD** | Clwy'r Traed a'r Genau |
| **FSA** | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| **FVO** | Swyddfa Filfeddygol Bwyd |
| **GB** | Prydain Fawr |
| **CThEM** | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| **HPAI** | Ffliw'r Adar Pathogenedd Uchel |
| **Gwiriadau ID** | Gwiriadau adnabod |
| **ALlau** | Awdurdodau Lleol |
| **NGO** | Sefydliad Anllywodraethol |
| **Gogledd Iwerddon** | Gogledd Iwerddon |
| **OIE** | Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd |
| **OVS** | Llawfeddyg(on) Milfeddygol Swyddogol |
| **PAFF** | Pwyllgor Sefydlog ar Blanhigion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant – a elwid gynt yn SCoFCAH (Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid) |
| **PHA** | Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd |
| **POAO** | Cynhyrchion yn dod o anifeiliaid |
| **RASFF** | System Rhybuddio Cyflym yr UE ar gyfer Bwyd a Phorthiant |
| **SG** | Llywodraeth yr Alban |
| **TARP** | Rheoliadau Masnach mewn Anifieiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig |
| **TRACES** | System Arolygu Masnach ac Arbenigwyr yr UE |
| **Y DU** | Y Deyrnas Unedig |
| **WG** | Llywodraeth Cymru |
| **WTO** | Sefydliad Masnach y Byd |

ISBN 978-1-5286-0643-1
CCS0718989650